CYFRES C7

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th

DARLLENWCH
1 Samuel 16: 1-13

ADNOD ALLWEDDOL
1 Samuel 16: 7

Gwers 1 Bywyd Dafydd – Dewis y Brenin

Roedd yn bryd cael brenin newydd. Roedd Saul yn frenin da ar y dechrau ond nid oedd yn hollol ufudd i Dduw a gwrthododd Duw ef. Dywedwyd wrth Samuel am benodi brenin newydd.

C Ar ôl pob brawddeg, rhowch gylch o gwmpas y llythyren gywir o dan Cywir neu Anghywir.

	Cywir	Anghywir
Roedd Samuel i fod i fynd i Jerwsalem	a	u
Un o feibion Jesse fyddai'r brenin newydd	f	b
Byddai Samuel yn eneinio'r brenin ag olew	u	c
Roedd Samuel yn meddwl y gallai Saul ei ladd	dd	d

C Beth yw'r gair yn y llythrennau sydd â chylch o'u cwmpas?

C Pa un o feibion Jesse oedd Samuel yn meddwl y byddai'n gwneud brenin da?

5

Mae safonau Duw yn wahanol iawn i'n rhai ni. Rydyn ni'n barnu pobl yn ôl y ffordd y maen nhw'n edrych i ni. Mae Duw yn poeni mwy am ein 'calonnau' mewnol ac nid sut rydyn ni'n edrych o'r tu allan. ***Pan fydd Duw yn edrych ar eich bywyd chi, beth mae'n ei weld?***

1

C **Ysgrifennwch y rhan olaf o'r Adnod Allweddol i gael deall sut y mae Duw'n gweld pethau.**

2

CHWILAIR

Rhowch gylch o gwmpas enwau meibion Jesse sy'n cael eu henwi yn y Darlleniad o'r Beibl.
Maen nhw'n rhedeg yn ôl, ymlaen ac ar lletraws.

A	E	B	J	C	D	E	DD
G	H	L	I	W	CH	Y	F
D	A	Y	I	R	F	R	N
H	A	M	M	A	S	S	O
U	T	C	D	G	B	TH	E
A	B	I	N	A	D	A	B

2

C **Tanlinellwch y gair cywir yn y brawddegau isod.**

Gwelodd Samuel WYTH / SAITH / DDAU

o feibion Jesse cyn gweld Dafydd.

Roedd y mab ieuengaf yn gofalu am y CARTREF / DEFAID / MOCH.

Dywedodd yr Arglwydd, "Tyrd, ENEINIA / LLADD ef."

3

CROESAIR



I Lawr
2. Nid oedd Saul yn un da.
4. Brawd hynaf Dafydd.
5. Defnyddiwyd hwn i eneinio Dafydd.
6. Roedd gan Dafydd saith _ _ _ _ _.

Ar Draws
1. Ar ôl ei eneinio, disgynnodd _ _ _ _ _ yr Arglwydd ar Dafydd.
3. Hwn gafodd ei anfon i ddewis y brenin newydd.
4. Dyma a wnaeth Samuel i Dafydd â'r olew.

7

Mae'r wers hon yn ein hatgoffa bod Duw'n ein nabod ni i gyd yn bersonol a bod ganddo gynllun ar gyfer pawb ohonom. Os gwnawn ni ef yn Arglwydd ein bywydau, bydd yn gweithredu ei gynllun ar ein cyfer. Os na wnawn ni hyn, ni fydd Duw'n gallu gweithredu ei gynllun ar ein cyfer.

Enw _____

DARLLENWCH
1 Samuel 17: 12-52

ADNOD
ALLWEDDOL
1 Samuel 17: 47

Gwers 2 Bywyd Dafydd – Curo'r Cawr!

Roedd yr Israeliaid mewn rhyfel. Roedd gan y gelyn, y Philistiaid, arf arbennig – cawr mawr, cryf! Roedd e bron 3 metr o daldra! I benderfynu pwy fyddai'n ennill y frwydr, roedd Goliath y cawr am ymladd ag un o'r Israeliaid. Bob dydd, roedd Goliath yn herio'r Israeliaid i anfon rhywun i ymladd yn ei erbyn.

C Enwch dri o feibion Jesse oedd wedi mynd i'r rhyfel. 3

C Pa adnod sy'n dweud wrthym fod Jesse wedi gofyn i Dafydd fynd i weld sut yr oedd ei frodyr? 1

Adnod .....

SYM

Am faint o ddiwrnodau bu Goliath yn herio Israel? .....
+ Sawl torth aeth Dafydd â nhw i'r frwydr? .....
+ Sawl cosyn aeth Dafydd â nhw i'r frwydr? .....
CYFANSWM = ... 3

Pan oedd Dafydd yn siarad â'i frodyr, gallai glywed Goliath yn herio'r Israeliaid a gwelodd bod y rheiny'n ofnus iawn. Roedd y brenin Saul wedi cynnig gwobrau hael i unrhyw un a fyddai'n lladd Goliath.

C Rhowch y geiriau yn y drefn gywir i weld beth oedd y gwobrau. 3

Byddai'r brenin yn ei wneud yn O TH O E G F Y G A N W I _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ .

Byddai'r brenin yn rhoi ei F CH R E _ _ _ _ _ yn A R W G I _ _ _ _ _ iddo.

Ni fyddai'n rhaid i'w deulu dalu I TH R E T _ _ _ _ _ _ .

Roedd Dafydd yn siarad ac yn holi pobl a chlywodd Eliab, ei frawd hynaf ef.

C Ysgrifennwch yn YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth a ddywedodd Eliab yn adnod 28. 1

Clywodd Saul fod Dafydd yn holi am hynt y frwydr ac anfonodd amdano.

C **Defnyddiwch y cod isod i gael gwybod beth ddywedodd Dafydd.**

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16	17	18
a	â	c	d	dd	e	f	h	i	l	m	n	ph	r	s	t	w	y

7	6	1	7	9	1	3	18	11	10	1	5	2	14	13	9	10	9	15	16	9	1	4	8	17	12
_	_	_	_	_	_	_	_	_	_	_	_	,	_	_	_	_	_	_	_	_	_	_	_	_	_

2

C **Ysgrifennwch ar y dotiau pwy a ddywedodd bob un o'r brawddegau isod a nodwch yn y bocsys ym mha drefn y cawson nhw eu dweud. (Adnodau 33 – 37)**



4

C **Lliwiwch y pethau NAD aeth Dafydd gydag ef i ymladd â Goliath.**

1

Aeth Dafydd o'r nant i ymladd â Goliath. Pan welodd Goliath Dafydd yn dod, doedd arno ddim ofn o gwbl. Roedd yn meddwl y byddai'n lladd Dafydd yn hawdd. Ond roedd gan Dafydd ffydd yn Nuw ac roedd yn hyderus y byddai'n ennill.

C **O'r Adnod Allweddol, ysgrifennwch beth ddywedodd Dafydd wrth Goliath am y frwydr.**



1

C **Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN sut y lladdodd Dafydd Goliath.**

1

Trwy ei ffydd a gyda help Duw, enillodd Dafydd y frwydr yn erbyn Goliath. Heddiw, y diafol (neu Satan) yw ein gelyn mwyaf. Enillodd Iesu Grist y frwydr yn erbyn Satan pan fu farw ar y groes. Pan rydyn ni'n ymddiried yn Iesu, rydyn ni'n cael profiad o'i fuddugoliaeth dros Satan.

Enw _____

DARLLENWCH
1 Samuel 18: 1-17, 19: 1-18

ADNOD ALLWEDDOL
1 Samuel 18: 14

Gwers 3 Bywyd Dafydd – Byw gyda Saul

Ar ôl iddo ladd Goliath, aeth Dafydd i fyw gyda Saul. Daeth yn ffrindiau mawr â Jonathan.

C **Tanlinellwch yr ateb cywir i ddangos sut roedd Jonathan yn perthyn i Saul.** 1

Nai Mab Tad Ewythr

CHWILAIR



Llanwch y bylchau ac yna rhowch gylch o gwmpas y geiriau yn y Chwilair. Maen nhw'n rhedeg i fyny, i lawr, ar lletraws, yn ôl ac ymlaen.

1. Arf _ _ _ _ _ _
2. Defnyddir hwn gyda saethau _ _ _
3. Anrheg arall roddodd Jonathan i Dafydd _ _ _ _ _ _
4. Rhoddodd Jonathan yr anrhegion hyn gan ei fod yn _ _ _ _ Dafydd.

R	O	M	E	DD	Y
U	R	A	A	R	G
R	L	N	W	W	Y
A	DD	T	G	B	Y
C	L	E	DD	Y	F
D	A	LL	G	E	F

C **Ewch o'r chwith i'r dde i lawr y grid a defnyddio'r llythrennau sydd ar ôl i gael gwybod pam yr oedd Dafydd yn llwyddo.** 5

C **Pa adnod sy'n dweud wrthym fod Dafydd wedi cael dyrchafiad gan Saul?** 1

Adnod

C **Defnyddiwch y llafariaid, a, e, i, o, u, w, y, i lenwi'r bylchau i gael gwybod pam yr oedd Saul yn genfigennus o Dafydd.** 2

Canodd y gwragedd: "Ll_dd_dd S_ _ l _ _ f_ l_ _ dd, _ D_f_dd _ _ f_rdd_ _n_ _."

C **Rhowch gylch o gwmpas yr arf a ddefnyddiodd Saul ddwywaith i geisio lladd Dafydd.** 1

Roedd Saul yn gobeithio y byddai rhywun arall yn lladd Dafydd.

C **Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth oedd ei gynllun. (Pennod 18:17)**

1

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

1

Yn nes ymlaen, dywedodd Jonathan wrth Dafydd fod Saul yn dymuno iddo gael ei ladd.
Yna, ceisiodd Jonathan berswadio ei dad i newid ei feddwl.

C **Darllenwch 1 Samuel 19: 4 a 5 a thynnwch linell trwy'r geiriau anghywir yn y brawddegau isod.**

Dywedodd Jonathan wrth Saul,

"NI WNAETH EF GAM Â THI / NI WNAETH EF EI HUNAN YN FRENIN.

MENTRODD EI FYWYD DROSOT TI / RHODDODD EF DY FYWYD MEWN PERYGL.

Roeddet ti'n falch pan LADDODD DAFYDD GOLIATH / REDODD DAFYDD I FFWRDD."

3

POS GEIRIAU
(Pennod 19: 9-18)



1. Beth oedd Dafydd yn ei wneud pan daflwyd gwaywffon ato?
2. Aeth Dafydd i weld y dyn hwn.
3. Beth wnaeth Dafydd trwy'r ffenest?
4. Beth roddodd gwraig Dafydd yn y gwely lle byddai pen Dafydd, i dwyllo'r negeswyr?

4

C **Rhowch y llythrennau yn y SGWARIAU LLIW yn y drefn gywir i roi enw gelyn Dafydd.**

1

Rhaid i ni gofio nad yw bob amser yn hawdd byw fel y mae Duw eisiau i ni fyw. Roedd Duw wedi dewis Dafydd i fod yn frenin ond roedd ganddo nifer o wersi anodd i'w dysgu cyn y byddai'n eistedd ar orsedd Israel. Ond, yn ei holl drafferthion, roedd yn gallu dibynnu ar Dduw i fod gydag ef. Gallwn ni ddibynnu ar Dduw i'n helpu ni hefyd os credwn yn Iesu Grist.

Enw _____

DARLLENWCH
1 Samuel 20: 1-42

ADNOD
ALLWEDDOL
1 Samuel 20: 17

Gwers 4 Bywyd Dafydd – Ffrindiau â Jonathan

Os oes gennych chi ffrind gorau, beth ydych chi'n ei ddisgwyl o'r cyfeillgarwch hwnnw?

C Rhowch gylch o gwmpas y pethau fyddech chi'n disgwyl i ffrind da ei wneud.

Gwrando arnoch chi. Eich siomi. Dweud celwydd amdanoch.

Eich rhybuddio os bydd perygl. Eich helpu os bydd yn gallu.

3

Roedd Dafydd a Jonathan yn ffrindiau da ac roedden nhw'n cael sgwrs bwysig.

C Darllenwch adnodau 1 – 4 a rhoi rhifau ym mocsys 1 – 4 i ddangos ym mha drefn y cafodd y brawddegau hyn eu dweud.
Hefyd, rhowch ✓ i ddanogs pa un ai 'Jonathan' ynteu 'Dafydd' a'u dywedodd nhw.

	Jonathan	Dafydd
☐ "Dim ond cam sydd rhyngof i ac angau."	☐	☐
☐ "Beth wnes i?"	☐	☐
☐ "Ni fyddi farw."	☐	☐
☐ "Beth a ddymuni i mi ei wneud i ti?"	☐	☐

4

Meddyliodd Dafydd am gynllun i gael gwybod yn iawn a oedd Saul yn bwriadu ei ladd.

C Defnyddiwch yr ymadroddion isod i gwblhau'r brawddegau.

fwyta gyda'r brenin / lleuad newydd / guddio yn y cae / colli ei dymer / mynd i Fethlehem

Drannoeth roedd _____. Doedd Dafydd ddim yn mynd i

_____ ond roedd am _____. Pan welai Saul nad

oedd Dafydd yno,

byddai Jonathan yn dweud bod Dafydd wedi gorfod _____.

Byddai Saul naill ai'n dweud "Popeth yn iawn" neu'n _____.

5

Addawodd Jonathan y byddai'n rhoi gwybod i Dafydd sut oedd Saul wedi ymateb. Gofynnodd Jonathan i Dafydd addo bod yn garedig iddo ef a'i deulu i gyd pan fyddai ef yn frenin a'i elynion i gyd wedi'u dinistrio.

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

2

Sut oedd Jonathan yn mynd i roi gwybod i Dafydd beth oedd wedi digwydd? Cynllun arall! Mae hyn yn swnio fel stori antur ond mae'n wir!

C Rhowch ✓ wrth y frawddeg a fyddai'n dangos bod Dafydd yn ddiogel ac na fyddai'n rhaid iddo ofni Saul. (Adnodau 21 a 22) 1

"Mae'r saethau y tu yma i ti." ❑ "Mae'r saethau y tu draw i ti." ❑

Soniodd Saul ddim am y peth pan nad oedd Dafydd wrth y bwrdd ar y diwrnod cyntaf. Ar yr ail ddiwrnod, roedd yn flin.

C Darllenwch adnodau 33 a 34 ac yna ysgrifennwch:

1 Beth a wnaeth Saul. 2. Beth a wnaeth Jonathan. 2

1
2

C Dilynodd Jonathan y cynllun a saethodd y saethau fel y trefnwyd. Ysgrifennwch yn y swigen siarad beth waeddodd Jonathan wrth i'r llanc fynd i gasglu'r saethau. (Adnod 37) 1

Mae hyn yn dangos bod Jonathan yn poeni am ddiogelwch ei ffrind. Mae'n dangos hefyd ei fod yn ffrind da iddo. Roedd Jonathan a Dafydd yn poeni na fyddent yn gweld ei gilydd byth eto. Fe wnaethon nhw addo bod yn ffrindiau am byth, beth bynnag fyddai'n digwydd.
Mae'n bwysig ein bod ninnau'n cadw ein haddewidion ac yn aros yn driw i'n ffrindiau. Mae yna un Ffrind sy'n ein caru ac yn gofalu amdanom beth bynnag sy'n digwydd.

C Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i weld ei enw. 2

R Y DD Y R A W L G S I E U R T G I S

— —

Roedd Dafydd yn caru Duw ac yn gallu cyfrif ei fendithion am fod ganddo ffydd yn Nuw. Os ydi Iesu yn Arglwydd ac yn Waredwr i ni, gall ef ein helpu o ddydd i ddydd trwy'n bywydau.

cyfanswm

Marciau
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120